

Gwybodaeth i Gleifion

Beth yw Botulinum Botox Mewnbledrol a sut mae'n gweithio? Adran Wroleg

Beth yw Botox, a sut mae'n gweithio?

Defnyddir Botox (Tocsin Botulinum math A) i drin nifer o gyflyrau, yn fwy diweddar i'w defnyddio wrth drin symptomau wrinol fel brys, amllder ac anymataliaeth. Ar hyn o bryd, mae defnyddio Botox ar gyfer symptomau wrinol yn ddefnydd didrwydded ac felly mae'n gyfyngedig i'w ddefnyddio gan arbenigwyr ym maes cyflyrau'r bledren. Mae Botox yn gweithio trwy achosi ymlacio cyhyrau.

Beth yw buddion Botox?

Nod y driniaeth yw lleihau symptomau wrinol. Gall effaith triniaeth gymryd hyd at 10 diwrnod i ddod yn amlwg, felly efallai na fydd rhai cleifion yn sylwi ar unrhyw ryddhad o'u symptomau ar unwaith. Yn y pen draw, bydd effaith botox yn diflannu ac efallai y byddwch yn sylwi ar y symptomau'n dychwelyd yn raddol. Gan fod pob claf yn cael profiad gwahanol, mae'n amhosibl rhagweld pa mor hir ar ôl eich triniaeth y bydd hyn yn digwydd, ond bydd effaith y driniaeth fel arfer yn para 6-9 mis. Mae aildriniaeth ar gael i gleifion os oes angen.

Beth yw'r risgiau?

Efallai y byddwch yn gweld rhywfaint o waed yn yr wrin ar ôl y driniaeth. Mae heintiau wrin yn digwydd mewn rhai cleifion. Gall y rhain gael eu hachosi gan y driniaeth ei hun, neu efallai oherwydd gwagio'r bledren yn anghyflawn wrth i'r botox ddechrau cymryd effaith. Efallai y bydd hyd at 30% o gleifion angen hunan-gathetreiddio dros dro i helpu'r bledren i wagio. Mae digwyddiadau niweidiol posibl prin iawn eraill yn cynnwys:-

- Adwaith alergaidd
- Gwendid cyhyrau cyffredinol
- Symptomau tebyg i ffliw

Cyn y driniaeth

Cyn eich apwyntiad i gael triniaeth botox, fe'ch gwelir gan y nyrs arbenigol a'ch dysgu sut i berfformio hunan-gathetreiddio ysbeidiol. Mae hyn yn golygu eich bod chi'n dysgu sut i basio tiwb plastig bach i'ch pledren er mwyn draenio wrin. Gofynnir i chi ddod â rhestr o unrhyw feddyginiaethau cyfredol rydych chi'n eu cymryd, a rhoi gwybod i ni os oes gennych unrhyw alergeddau hysbys. Bydd y meddyg yn trafod y driniaeth botox â chi, a gofynnir i chi lofnodi ffurflen gydsynio. Fel arall, nid oes unrhyw beth penodol y mae'n rhaid i chi ei wneud cyn y driniaeth.

Sut mae'r pigiadau'n cael eu rhoi?

Rhoddir ychydig bach o jeli ag anesthetig lleol yn eich wrethra, gan 'rewi'r ardal' fel nad ydych chi'n teimlo unrhyw boen. Yna trosglwyddir telesgop bach (cystosgop) i'ch pledren trwy'ch wrethra (y tiwb sy'n cludo wrin o'r bledren ac allan o'r corff). Llenwir eich pledren â dŵr trwy'r telesgop a allai wneud i chi deimlo fel bod angen i chi fynd i'r toiled. Yna bydd y meddyg yn pasio nodwydd fach i lawr y telesgop ac yn chwistrellu rhwng 10-20 pigiad o botox i wal y bledren. Yna caiff y telesgop ei dynnu a gallwch fynd i'r toiled a gwagio'ch pledren fel arfer. Perfformir y driniaeth mewn adran cleifion allanol. Mae'n cymryd tua 5-10 munud o'r telesgop yn mynd i mewn i'r bledren i'r telesgop yn dod allan.

A yw'r driniaeth yn boenus?

Gall y driniaeth fod yn anghyfforddus ond ni ddylai fod yn boenus. Gan fod y botox yn cael ei chwistrellu, gall bigo am ychydig eiliadau. Gallwch siarad â'r meddyg a'r nyrs yn ystod y driniaeth gyfan felly os ydych chi'n profi unrhyw anghysur, gallwch ofyn am roi'r gorau i'r driniaeth ar unrhyw adeg. Nid yw'r rhan fwyaf o gleifion yn teimlo unrhyw boen wedyn.

Ar ôl y driniaeth

Byddwch yn cael presgripsiwn am gwrs tridiau o wrthfotigau i fynd adref gyda chi i atal haint; gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'r cwrs. Gofynnir i chi aros yn yr adran am hanner awr, ac ar ôl hynny gallwch fynd adref.

Ni ddylai'r driniaeth effeithio ar eich gallu i yrru ond dylech aros nes bod unrhyw anghysur a allai fod gennych wedi'i ddatrys. Ar ôl eich triniaeth, bydd y nyrs arbenigol yn sicrhau bod gennych gyflenwad o gathetrau adref rhag ofn y bydd eu hangen. Bydd y nyrs arbenigol yn eich ffonio adref y diwrnod canlynol a byddwch yn cael eich gweld mewn clinig cleifion allanol wythnos yn ddiweddarach. Efallai y byddwch yn sylwi bod eich llif wrinol yn arafach ar ôl triniaeth botox; mae hyn yn normal ac i'w ddisgwyl.

Cyngor Rhyddhau ar ôl Botulinum Mewnbledrol

- Yn dilyn y driniaeth hon, efallai y gwelwch ychydig bach o waed yn eich wrin. Dylai hyn leihau ar ôl 24 awr.
- Efallai y bydd yn llosgi neu'n pigo pan fyddwch chi'n pasio wrin. Dylai hyn leihau ar ôl 2-3 diwrnod.
- Sicrhewch eich bod yn cwblhau'r cwrs llawn o wrthfotigau a roddwyd i chi ar ôl y driniaeth. Fodd bynnag, os byddwch chi'n datblygu tymheredd, bod eich wrin yn ddrewllyd neu'n gymylog a bod angen i chi basio wrin yn aml, yna efallai bod gennych haint wrin. Cysylltwch â'r adran neu'ch meddyg teulu oherwydd efallai y bydd angen cwrs pellach o wrthfotigau arnoch chi.
- Bydd eich llif wrinol yn arafach ar ôl triniaeth botox; mae hyn yn normal ac i'w ddisgwyl. Fodd bynnag, os ydych chi'n teimlo nad ydych chi'n gwagio'ch pledren yn iawn, mewnosodwch un o'ch cathetrau i weld os oes wrin yn cael ei gadw yn eich pledren. Os gwelwch nad ydych yn gwagio'ch pledren yn iawn, bydd angen i chi fewnosod cathetr 2 i 4 gwaith y dydd, yn dibynnu ar faint o wrin sy'n cael ei gadw yn y bledren. Os oes angen defnyddio'r cathetrau i ddraenio'r bledren, rhowch wybod i'r nyrsys arbenigol cyn gynted â phosibl.
- Gallwch fwyta ac yfed fel arfer ar ôl y driniaeth.
- Gallwch yrru a dychwelyd i'r gwaith yn dilyn y driniaeth os dymunwch.

- Gallwch ailafael mewn gweithgaredd rhywiol cyn gynted ag y byddwch chi'n teimlo'n gyffyrddus i wneud hynny.

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni:-

Coral Seymour, Paulette Hussain & Zoe Ladd
Nyrs Arbenigol Glinigol Wroleg ar:- 01633 – 234976

Adran Cleifion Allanol Wroleg ar:- 01633 - 234979

Ward Llawfeddygaeth Dydd Wroleg ar:- 01633 - 656378

Ward Wroleg D 5 Gorllewinol (24 awr) ar:- 01633 - 234040/234041

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”.**